**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**27 Hydref 2014**

**RHAGLEN CYSYLLTIADAU SYMUDOL Y GWASANAETHAU BRYS**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben y papur hwn yw rhoi gwybod i'r Aelodau am Raglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys (Rhaglen yr ESMP) a'r risgiau posibl i'r prosiect cenedlaethol hwn, sy'n ymwneud â phob gwasanaeth brys yn y Deyrnas Unedig.

## Cefndir

2 Ymhob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, bydd darparu cysylltiadau radio, drwy gontract sy'n cael ei gaffael yn genedlaethol, yn dod i ben yn Rhagfyr 2016. Mae rhaglen newydd, o'r enw Rhaglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys (*Emergency Service Mobile Communication Programme (ESMCP)*), wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Ei Mawrhydi ac yn cael ei arwain gan y Swyddfa Gartref i ddarparu gwasanaeth newydd erbyn yr adeg pryd y daw'r contract i ben.

## Gwybodaeth

3 Fe wnaeth y Pwyllgor Materion Cenedlaethol dderbyn adroddiad ynglŷn â Rhaglen yr ESMCP yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2014. Roedd yr adroddiad i'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y graddfeydd amser ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru, a bu'r Aelodau'n trafod y risgiau penodol i'r tri Gwasanaeth yng Nghymru.

4 Dyma raddfeydd amser y prosiect:

- Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol yn Ebrill 2014
- Rhyddhau Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) a'r Holiadur Rhag-Gymhwyso yn Ebrill 2014
- Rhyddhau'r Gwahoddiad i Dendro yn haf 2014
- Dychwelyd y tendrau yn hydref 2014
- Gwerthuso'r Tendrau a'r Dechnoleg yng ngaeaf 2014
- Cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol yng ngwanwyn 2015
- Dyfarnu'r Contract yng ngwanwyn 2015
- Gwneud paratoadau rhwng Gwanwyn 2015 a chyfnod olaf 2016
- Cychwyn y Gwasanaeth yng nghyfnod olaf 2016

## Risgiau

5 Mae pryderon na fydd y system newydd yn darparu gallu gweithredol derbyniol, gan gynnwys signal a chydnerthedd. Bydd yr Aelodau o bosibl yn dymuno gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi secondio swyddog i'r prosiect yn llawn amser ac mae'n cael ei fonitro'n genedlaethol drwy Cyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys a'i ffrydiau gwaith cysylltiedig.

6 Un o brosiectau Llywodraeth y DU yw hwn felly mae'n bosibl na fydd y graddfeydd amser yn cael eu cyrraedd ac efallai y bydd angen trafod estyniad i'r contract gyda'r cyflenwr presennol. Mae hyn yn debygol o fod yn ddrutach na'r costau cyfredol.

7 Ar hyn o bryd, mae rhai o gostau'r system gysylltiadau gyfredol yng Nghymru yn cael eu hariannu drwy grant penodol gan Lywodraeth Cymru. Ni ellir gwarantu hyn yn y dyfodol.

8 O ystyried y risgiau hyn doeth fyddai gwneud darpariaeth flynyddol i gwrdd â'r costau hyn, nad ydynt eisoes yn wybyddus.

## Argymelliad

9 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ac yn cytuno i'r awgrym i roi arian o'r neilltu mewn darpariaeth i liniaru costau ymestyn y contract a/neu gostau pontio.